

HYSBYSIAD PWYSIG I BRESWYLWYR A MANWERTHWYR

GŴYL FWYD CAERFFILI

Dydd Sadwrn 11 Mai 2018

GWYBODAETH A CHAU FFYRDD

Lleoliad: Heol Caerdydd a Maes Parcio'r Twyn Oriau agor: 9.00am - 5.00pm

Cau ffyrdd a systemau traffig: Bydd Heol Caerdydd a Stryd y Castell (tua'r gogledd yn unig) ar gau o 10.00pm ar 10.05.19 tan 10.00pm ar 11.05.19. Tra bydd y ffyrdd hyn ar gau, ni fydd y system unffordd yn Stryd Sain Ffagan ar waith rhwng ei chyffyrdd â Stryd Bradford a Heol Caerdydd. Bydd rhaid i gerbydau droi i'r chwith wrth yrru o Stryd Sain Ffagan i Stryd Bradford.

Mynediad i fanwerthwyr: Yn achos manwerthwyr yn y rhan o Heol Caerdydd a fydd ar gau, sydd heb fynediad i'r lôn gefn, dylent drefnu derbyn unrhyw nwyddau ar gyfer diwrnod y digwyddiad cyn 10pm ar 10.05.19 neu rhwng 4.30am a 7.00am ar 11.05.19. Yn achos manwerthwyr yn Stryd Sain Ffagan sydd â lle parcio/garej y tu cefn i'w heiddo yn Lôn y Parc, byddant yn cael tocyn er mwyn cael mynediad yn ystod y digwyddiad. Gallant hefyd barcio yn Ysgol y Twyn ac Ysgol y Castell yn ystod oriau agor y digwyddiad, os oes angen ac os oes ganddynt docyn. Yn achos manwerthwyr a staff y Llyfrgell sy'n cael defnyddio'r maes parcio y tu ôl i Gymdeithas Adeiladu'r Principality a Llyfrgell Caerffili, cânt wneud cais am docyn mynediad drwy gysylltu â digwyddiadau@caerffili.gov.uk neu **01443 866390**.

Maes parcio Sports Direct a gwasanaeth dosbarthu Iceland: Ni chaiff y cyhoedd fynd i mewn i'r maes parcio. Yn ystod y digwyddiad, bydd stiward yn cadw golwg ar y bolardiau gollwng cloadwy rhwng Stryd Windsor a maes parcio Sports Direct/Iceland. Bydd angen i dacs gasglu eu teithwyr o ddiwedd Lôn Drefol Gogledd Stryd Windsor. Gall deiliaid allwedd, rheolwyr a gweithwyr sifftiau cynnar Iceland a Sports Direct gael mynediad i'r maes parcio o Heol Caerdydd o 4.30am tan 7.00am ar 11.05.19. Ar ôl yr amseroedd hyn, caiff cerbydau adael maes parcio'r siop ar hyd Lôn Drefol Gogledd Stryd Windsor yn unig. Dylai pob aelod arall o'r staff barcio mewn meysydd parcio eraill yn yr ardal neu ddefnyddio'r lleoedd a fydd ar gael yn Ysgol y Castell neu Ysgol y Twyn. Bydd tocynnau'n cael eu rhoi i Sports Direct ac Iceland ar gyfer yr ysgolion hyn. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau yn ystod y diwrnod, ffoniwch 07876 358074 i siarad â'r swyddog digwyddiadau ar y safle.

Mynediad i breswylwyr: Er mwyn hwyluso taith ddiogel i gerbydau dosbarthu nwyddau Iceland a Sports Direct ar hyd Lôn Drefol Gogledd Stryd Windsor, bydd gofyn i breswylwyr gadw'r lôn hon yn rhydd o gerbydau yn ystod cyfnod y digwyddiad. Bydd aros a llwytho yn y lôn hon yn cael eu gwahardd o 5.00pm ar 10.05.19 tan 10.00pm ar 11.05.19. Yn achos preswylwyr yn Stryd Sain Ffagan sydd â lle parcio/garej y tu cefn i'w heiddo yn Lôn y Parc, byddant yn cael tocyn er mwyn iddynt gael mynediad yn ystod y digwyddiad. Gallant hefyd barcio yn Ysgol y Twyn ac Ysgol y Castell yn ystod oriau agor y digwyddiad, os oes angen.

Taccis: Ni fydd eithriad ar gyfer taccis yn y digwyddiad hwn. Gan ei fod yn ddigwyddiad undydd, ni fydd yn ddiogel caniatáu mynediad i'r safle i gasglu teithwyr oherwydd gwaith gosod a datgymalu stondinau marchnad. Trefnwch fannau casglu eraill tra bydd y ffyrdd ar gau.

Llwybrau a safleoedd bysiau: Bydd y safleoedd bysiau, a fydd wedi eu heffeithio tra bydd y ffyrdd ar gau, yn cael eu symud i'r brif gyfnewidfa a bydd llwybr bysiau dros dro ar waith ar hyd Stryd Clive, Stryd Ludlow a Heol y Cilgant. Bydd conau 'dim aros' yn cael eu gosod ar hyd y ffyrdd hyn i gyd-fynd â'r llwybr bysiau dros dro.

Diolch am eich amser a'ch cydweithrediad yn ystod y digwyddiad hwn.

Os oes gennych ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â'r Rheolwr Canol Trefi ar **01443 866213** neu Ganolfan Ymwelwyr Caerffili ar **029 2088 0011**. I gymryd rhan yn y digwyddiad, neu i roi adborth ar ôl y digwyddiad, cysylltwch â'r Tîm Digwyddiadau ar **01443 866390** neu digwyddiadau@caerffili.gov.uk



I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, dilynwch Croeso Caerffili ar Twitter, Instagram a Facebook.    [visitcaerphilly](https://www.visitcaerphilly.com)

Gwybodaeth am y digwyddiad: www.caerphillyfoodfestival.co.uk